OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3005 (Cy.264)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11 Tachwedd 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Tachwedd 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Rhagfyr 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 124 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 7 Rhagfyr 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**).

### Diwygio'r prif Reoliadau

**2.** Yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau dileer y geiriau–

"Guernsey and its bailiwick", a

"Jersey".

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Tachwedd 2009

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1989/306, fel y'i diwygiwyd o ran Cymru gan O.S. 2004/1433 (Cy.146), O.S. 2005/3302 (Cy.256), O.S. 2008/2364 (Cy.203) ac O.S. 2009/1512 (Cy.148).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (O.S. 1989/306) ("Rheoliadau 1989"). Mae'r Rheoliadau'n tynnu Guernsey a'i beilïaeth a Jersey i ffwrdd o Atodlen 2 i Reoliadau 1989. Ni fydd ymwelwyr o'r tiriogaethau hyn i Gymru bellach yn esempt o dan reoliadau 4 a 5 o Reoliadau 1989 rhag ffioedd am ofal iechyd a ddarperir o fewn y GIG.